# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1712(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 8 Rhagfyr 2010

**At Darren Millar:**

Yn ystod Cwestiynau'r Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd gwnaethoch ofyn p'un a wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am adfer Halton Curve er mwyn cynnig teithiau uniongyrchol rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl.

Nododd Strategaeth Defnyddio Llwybrau Cymru Network Rail y gallai cyswllt rheilffordd rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl gael ei sefydlu pe byddai Halton Curve yn cael ei adfer a mannau croesi newydd yn cael eu darparu.

Rwy'n cefnogi'r prosiect hwn, mewn egwyddor, a fyddai'n darparu cysylltedd gwell i deithwyr yng Ngogledd Cymru i deithio i Lerpwl pe cynigid gwasanaeth uniongyrchol i Lerpwl. Nid wyf wedi trafod y prosiect penodol hwn â Llywodraeth y DU gan mai yn Lloegr yn gyfan gwbl y mae'r gwaith uwchraddio gofynnol i'r seilwaith (gwelliannau i'r trac a'r signalau) ac felly ni fyddwn yn bwriadu ei ariannu.

Rwy'n ymwybodol bod Merseytravel a Network Rail wedi cynnal astudiaeth i benderfynu a oes achos busnes dros adfer Halton Curve. Daethpwyd i'r casgliad y byddai cymhareb budd-cost o rhwng 1.5:1 ac 1.9:1 ac y byddai angen cymhorthdal blynyddol parhaus o rhwng £1.1m a £2.1m ar gyfer gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol newydd. Hyd yn hyn nid oes cyllid rhanbarthol na chyllid lleol wedi'i nodi i gyflwyno'r prosiect hwn.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1704(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 10 Ionawr 2011

**At Nick Bourne:**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn eich cwestiwn ddydd Mercher 24 Tachwedd 2010 yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i wella'r A487 yng Nglandyfi.

Gwnaethom waith clirio ar y safle a rhywfaint o waith ymchwilio i'r safle ddechrau'r llynedd er mwyn helpu i ddylunio'r cynllun yn fanwl. Gwnaethom wahodd tendrau am y gwaith ar 20 Awst 2010, ac rydym yn eu gwerthuso ar hyn o bryd. Ein nod yw dyfarnu'r contract yn gynnar eleni gyda'r gwaith adeiladu'n dechrau yn fuan wedi hynny. Dwy flynedd yw hyd y contract.